**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 9 Tachwedd 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** - Mae'r penderfyniad yn derfynol dan baragraff 7.25.1(ch) ac nid yw yn ddarostyngedig i alw mewn. | 9 Tachwedd 2021 |

---

**PWNC**

Eitem 4 :MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU – YSGOL ABERSOCH

---

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i beidio addasu y  penderfyniad a wnaethpwyd ar 28 Medi 2021 a cadarnhawyd yn derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bu i'r Cabinet ar y 28 Medi 2021 benderfynu yn derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

Yn dilyn cyhoeddi y penderfyniad hwn fe'i alwyd i mewn i i'w graffu gan Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi oherwydd pryderon nad oedd "yr adroddiad yn cymryd i ystyriaeth ddyfodol tai a gwaith fydd yn dod i rym yn y Pentref" . Yn unol a paragraff 7.25 o Reolau Sefydlog Craffu penderfynodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 21 Hydref 2021 i gyfeirio y mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail ystyried gan amlygu y materion isod:

a) Mae Datblygiad Newydd o godi Gwesty Newydd fydd yn creu beth bynnag 40 o swyddi llawn amser yn yr ardal - mi fydd y Gweithwyr a'u Teulu angen adnoddau yn cynnwys Addysg i ein plant.
b) Mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd a Chymdeithas Tai (sydd yn berchen tir yn y pentref) ar hyn o bryd yn edrych i godi mwy o dai - mae Llywodraeth Cymru wedi dweud fod grant ar gael i ddatblygu y tir yma i godi o bosib 15 o dai. Mae'r Gymdeithas tai wedi cadarnhau fod cynlluniau wedi gwneud yn barod ar safle Bryn Garmon.
c) Nid yw'r adroddiad yn sôn dim am y cynllun newydd gan yr Adran Tai ac Eiddo a dim am y datblygiadau sydd yn mynd ymlaen yn y Pentref ac felly nid yw'r Adran Addysg wedi ymateb i ofynion Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol wrth beidio gwneud hyn."

---

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cyng. Dewi Roberts gan ei fod yn aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol Abersoch.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 9 Tachwedd 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 24 Tachwedd 2021 |

## PWNC

Eitem 6:ADRODDIAD RHEOLAETH CARTREFI MODUR

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad a cymeradwywyd y canlynol:

I. Awdurdodi'r Pennaeth Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Adran Economi a Chymuned i gynnal prosiect peilot ar gyfer defnydd o hyd at 6 o safleoedd parcio'r Cyngor (neu ran o'r safleoedd) sydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, er darparu cyfleusterau i gartrefi modur aros dros nos ac i gynnwys dynodi y lleoliadau, ond yn ddarostyngedig i sicrhau cyllid cyfalaf a'r caniatâdau angenrheidiol.
II. Bod adroddiad pellach ar ganlyniadau y peilot yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ymhen tair blynedd.
III. Ystyried a gweithredu ar fesurau gorfodaeth i fynd law yn llaw gyda'r uchod.
IV. Cyflwyno'r gwaith ymchwil i Llywodraeth Cymru a gofyn iddynt Adolygu'r Ddeddf Carafanau a Rheoli Datblygu 1960.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Gan ystyried nifer sylweddol o ddefnyddwyr cartrefi modur sydd wedi bod yn ymweld a'r Sir yn ddiweddar a dros y blynyddoedd diwethaf, a'r pryderon sydd wedi eu codi gan gymunedau'r ardal, cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol cynnal gwaith ymchwil i'r sefyllfa yng Ngwynedd.

Mae'r gwaith ymchwil wedi ei gwblhau, ac yn cynnwys sail tystiolaeth sydd yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa yn lleol a thu hwnt. Mae'r gwaith ymchwil hefyd yn amlygu'r angen am fesurau ar gyfer rheoli'r sector cartrefi modur yn y Sir yn well, a credir y bydd y penderfyniad a geisir yn gallu cyfrannu tuag at hynny.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 9 Tachwedd 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 24 Tachwedd 2021 |

---

**PWNC**

Eitem 7:FFRAMWAITH PWYLLGORAU

---

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd mabwysiadu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet i'r dyfodol gyda'r dyddiad cychwyn i'w bennu gan yr Arweinydd mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth a'r Swyddog Monitro, ac o ganlyniad i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 yn caniatáu cynnal cyfarfodydd unai ar sail aml leoliad neu yn rhithiol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu trefniadau ar gyfer cyflawni hyn a'u cyhoeddi. Mae gan y Cabinet hawl i bennu trefniadau ar gyfer ei gyfarfodydd o fewn y gofynion cyfreithiol perthnasol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 9 Tachwedd 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 24 Tachwedd 2021 |

**PWNC**

Eitem 8:ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS TAI AC EIDDO

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 9 Tachwedd 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 24 Tachwedd 2021 |

## PWNC

Eitem 9:STRATEGAETH DDIGIDOL ADDYSG

## PENDERFYNIAD

I. Cymeradwywyd y Strategaeth Ddigidol Addysg yn ei chyfanrwydd.
II. Cytunwyd i gyd ariannu hyd at hanner costau adnewyddu'r dyfeisiadau drwy ymrwymo £2filiwn o falansau'r Cyngor, gyda disgwyliad i ysgolion dalu'r hanner arall .
III. Cytunwyd i ysgolion Gwynedd dderbyn cefnogaeth dechnegol gan wasanaeth Technoleg Gwybodaeth yr Awdurdod o Ebrill 2022 ymlaen.
IV. Cytunwyd i ariannu £145mil er mwyn cynnig cefnogaeth dechnegol hyd at Ebrill 2022, er mwyn prysuro amserlen cyflwyno dyfeisiadau i'r ysgolion.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn sgil diwygio'r cwricwlwm mae cymhwysedd ddigidol yn gyfrifoldeb statudol ar draws pob maes dysgu ac mae angen ei ystyried ym mhob agwedd wrth ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Nid gweledigaeth y dyfodol yw dysgu digidol, dyma yw'r presennol ac oni bai ein bod yn cynllunio camau positif i gyflwyno darpariaeth ddigidol o'r safon uchaf ac yn gyson drwy'r system addysg, byddwn yn byw â darpariaeth sy'n addas i'r gorffennol yn unig.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth wedi cychwyn ers cyn cyfnod y pan demig. Yn ystod y cyfnodau estynedig lle'r roedd ysgolion ar gau i ddysgu wyneb yn wyneb gwelwyd cynnydd sylweddol mewn defnydd ysgolion o dechnoleg. Amlygwyd bryd hynny yr angen am strategaeth addysg ddigidol gyda anghysondeb mewn profiadau yn deillio o diffyg buddsoddiad mewn dyfeisiadau addas i blant ac athrawon ynghyd ag anghysondeb mewn hyder a sgiliau ein gweithlu addysg.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 9 Tachwedd 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 24 Tachwedd 2021 |

**PWNC**

Eitem 11:STRATEGAETH TG YSGOLION A CHWMNI CYNNAL

**PENDERFYNIAD**

I. Cymeradwywyd y ffordd arfaethedig ymlaen mewn perthynas â dyfodol Cwmni Cynnal.
II. Dirprwywyd yr hawl i Bennaeth yr Adran Gyllid mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol, i negodi cytundebau o'r fath fel sydd eu hangen yn rhesymol i hwyluso'r weithdrefn.
III. Gofynnwyd am adroddiad dilynol i'r Cabinet i gymeradwyo materion dosbarthu a throsglwyddo y cytunwyd arnynt.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r penderfyniad gan y Cabinet i gymeradwyo a gweithredu Strategaeth Ddigidol Addysg o anghenraid yn effeithio ar Gwmni Cynnal. Roedd yr adroddiad hwn yn nodi'r ffordd arfaethedig ymlaen i ymateb i'r effaith yma ac yn ceisio cytundeb fel bod modd dechrau ar y gwaith manwl a'r trafodaethau gyda'r cwmni.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Cemlyn Williams a Garem Jackson gan eu bod yn gyfarwyddwyr Cwmni Cynnal ac bu iddynt adael y cyfarfod.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.